Mae'r Prosiect EESW yn cynnig manteision lu i fyfyrwyr, ysgolion, colegau a chwmnïau. Byddwch yn meithrin nifer o sgiliau ac yn cael tystysgrif cwblhau hyfforddiant ar gyfer y meysydd a gwblhewch.

### Fel myfyriwr byddwch yn:

- gwella eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o feysydd STEM a chael cipolwg mwy manwl ar beirianeg a phrofiad o ddatrys problem go iawn
- cymhwyso a datblygu eich Sgiliau Hanfodol ac Allweddol gan gynnwys cyfathrebu, gwneud penderfyniadau, gwaith tîm, arwain tîm, datrys problemau, technegau cyflwyno ac ysgrifennu adroddiad
- cael gwybodaeth bwnc mewn cyd-destun diwydiannol go iawn i'w rhoi mewn ceisiadau UCAS a CVs
- gallu ymgeisio am wobwr Aur CREST
- gallu defnyddio'ch prosiect ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru (gweler tudalen 2 am wybodaeth bellach)
- cymwys i wneud cais am Wobwr Myfyriwr EESW y Flwyddyn Dr Tom Parry Jones.

### Eich Cyfrifoldebau

- Cwblhau'r prosiect ar ôl ei ddechrau
- Cadw dyddiadur o'r hyn a wnaethoch fel unigolyn a chyflwyno ffurflen CREST
- Sicrhau bod pob aelod o'r tîm wedi cofrestru cyn dechrau'r prosiect (Gallai methiant i gofrestru olygu na fyddwch yn gymwys i gael tystysgrif)
- Defnyddio gweithdrefnau rheoli prosiect arferol drwy gydol y prosiect gan gynnwys creu cynllun prosiect.
- Rheoli amser a dyrannu cyfrifoldebau o fewn y tîm (dim ond arweinydd y tîm ddylai gysylltu â'ch cwmni cyswllt)
- Ymrwmo o leiaf 70 awr i'r prosiect (sy'n eich gwneud yn gymwys am Wobwr CREST)
- Ymrwmo 120 awr i'r prosiect os dewiswch gyflwyno'r prosiect ar gyfer Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

- Sicrhau bod EESW/STEMCymru'n cael eu cynnwys ym mhob datganiad i'r wsg, erthygl a neges cyfryngau cymdeithasol

## Gwobrau CREST

Cynllun gwobrau cenedlaethol yw CREST (Creativity in Science and Technology) am waith prosiect mewn gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg, wedi'i gydlynu gan Gymdeithas Wyddoniaeth Prydain ledled y DU. Mae Gwobrau CREST ar gael ar lefelau Efydd, Arian ac Aur. Mae Prosiect EESW yn gynllun CREST achrededig a gallwch ennill Gwobr Aur drwy gymryd rhan.

Byddwch yn cael ffurflen broffil pan fyddwch yn cofrestru a gallwch lenwi'r adrannau ochr yn ochr â'ch gwaith prosiect.

Er mai rhaglen tîm yw EESW, gwobr i **unigolyn** yw CREST. Bydd angen i chi ddangos eich cyfraniad **personol** i ymdrech y tîm a dangos eich bod wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y wobr ar lefel personol.

Mae gwobrau CREST yn cael eu cydnabod gan UCAS i'w cynnwys mewn datganiadau personol.

## Bagloriaeth Cymru CBAC


Gallwch ddefnyddio eich cyfranogiad ym Mhrosiect EESW i ennill rhan o Fagloriaeth Cymru. Bydd y gweithgaredd a'r sgiliau a ddatblygir drwy gymryd rhan yn y prosiect yn eich helpu i ddatblygu'r ystod bwysig o sgiliau cyflogadwyedd sy'n allweddol i Fagloriaeth Cymru.

### Tystysgrif Her Sgiliau Uwch CBAC

Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau yn canolbwyntio ar y sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd y byddwch eu hangen yn y dyfodol a bydd y sgiliau hyn yn cael eu datblygu a'u hasesu drwy Brosiect Unigol a thair Her. Nod Bagloriaeth Cymru yw'ch galluogi i ddatblygu ac arddangos dealltwriaeth a medrusrwydd mewn perthynas â sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Dyma'r sgiliau sy'n bwysig i gyflogwyr ac addysgwyr yn y cam nesaf o'ch gyrfa addysg, ac rydych chi angen y sgiliau hyn ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd. Y saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd yw

Llythrennedd, Rhifedd, Llythrennedd Digidol, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Cynllunio a Threfnu, Creadigrwydd ac Arloesedd ac Effeithiolrwydd Personol. Gellir datblygu'r holl sgiliau yn drwy Brosiect EESW.

Bydd EESW yn caniatáu uchafswm o 8 aelod mewn tîm, ond **os ydych yn bwriadu defnyddio eich prosiect ar gyfer Bagloriaeth Cymru ni chaiff eich tîm gynnwys mwy na 6 aelod.**



### Her Menter a Chyflogadwyedd

Ar y lefel hon, gallwch gwblhau'r her hon fel unigolyn neu fel aelod o dîm sy'n cynnwys 3 i 6 aelod. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis y llwybr unigol, mae disgwyl i chi weithio gyda phobl eraill ar ryw adeg wrth gwblhau'r gweithgaredd. Rhagwelir y byddwch yn dewis menter arloesi sy'n gadael i chi ganolbwyntio ar ble rydych yn anelu i'w gyrraedd yn y dyfodol. Mae cymryd rhan ym Mhrosiect EESW yn cael ei gydnabod fel ffordd o gyflawni'r Her hon.

### Prosiect Unigol

Mae Bagloriaeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno Prosiect Unigol.

Mae'r cyswllt agos â chwmni a geir drwy gymryd rhan ym Mhrosiect EESW yn rhoi ffocws i chi ar gyfer Prosiect Unigol. Dylai hwn fod yn wahanol i'r prosiect ei hun, ond mae nifer o gyfleoedd cysylltiol ar gyfer cyflawni'r rhan hon o'r Fagloriaeth.

## Ymrwymiad yr ysgol

Eich athro fydd y pwynt cyswllt rhwng eich ysgol, y cwmni a'r EESW. Mae gofyn i'ch athro neilltuo amser ar gyfer goruchwylio'r tîm.

Dylai eich athro cyswllt roi cefnogaeth ac anogaeth i'ch tîm pan fo angen, ond dylai adael i chi ddatblygu eich prosiect yn annibynnol.

Mae'n ofynnol i ysgolion sy'n cytuno i gymryd rhan yn y rhaglen lofnodi cytundeb partneriaeth, sy'n datgan eu bod yn ymrwymo i'r canlynol:

- Neilltuo athro cyswllt i'ch tîm
- Sicrhau bod eich tîm yn mynychu'r digwyddiad croeso, ymweliadau â'r cwmni, gweithdy a'r Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno
- Sicrhau bod y tîm yn cwblhau'r prosiect
- Dychwelyd ffurflenni angenrheidiol i EESW pan fydd angen gwneud hynny

### Cyfrifoldebau eich athro

- Sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cofrestru ar ddechrau'r prosiect
- Sicrhau cyswllt rheolaidd â pheiriannydd y cwmni dynodedig ac ymateb o fewn dyddiadau cau
- Sicrhau bod y wybodaeth a'r cyfleusterau angenrheidiol ar gael i'r tîm, gan gynnwys cyfrifiaduron a mynychu gweithdai
- Rhoi cyngor ar gydbwysu gwaith ysgol a'r prosiect EESW
- Cyfeirio unrhyw broblemau gyda'r ysgol/cwmni i EESW
- Goruchwylio aelodau'r tîm yn holl ddigwyddiadau'r rhaglen
- Sicrhau bod eich tîm yn cyflwyno'r adroddiad prosiect yn brydlon (gall timau gael eu diarddel am fethu â chadw at ddyddiadau cau)
- Cynorthwyo'r tîm i baratoi'r arddangosiad ar gyfer y Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno
- Sicrhau bod y tîm yn gwneud cyflwyniad cychwynnol i'r cwmni cyswllt.
- Cwblhau'r holl waith papur angenrheidiol (yn cynnwys taflenni amser lle bo angen)
- Mynychu'r Diwrnod Gwobrau a Chyflwyniadau i oruchwylio'r tîm

## Gwybodaeth ar gyfer Peirianwyr Cwmnïau

Mae EESW yn cydnabod yn ddiolchgar y cymorth y mae'n ei gael gan gwmnïau drwy roi amser i beirianwyr helpu myfyrwyr i gyflawni nodau eu prosiectau.

Yn ystod y prosiect hwn mae gofyn i chi wneud y canlynol:

- darparu brîff prosiect ar gyfer y myfyrwyr
- gweithio'n agos gyda'r athro cyswllt
- cynnal cysylltiad â'r tîm drwy gyfarfod/ffonio/e-bostio
- mynychu digwyddiadau EESW, helpu'r tîm i baratoi eu hadroddiad terfynol ac ar gyfer eu hasesiad a'u cyflwyniad
- rhoi cydnabyddiaeth i'r prosiect EESW yn neunydd cyhoeddusrwydd y cwmni.

### Manteision i gwmnïau

- Arbedion ariannol posibl o ganlyniadau prosiectau llwyddiannus gan ddefnyddio meddyliau ifanc parod i arloesi
- Codi proffil yn y gymuned
- Datblygu sgiliau rheoli prosiect gan gyfrannu at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus y gweithwyr
- Cyfle i gryfhau cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant a gwella gwybodaeth athrawon am beirianeg a thechnoleg
- Buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol o fyfyrwyr sy'n astudio Peirianeg mewn Addysg Uwch

Bydd y tîm:

- yn cynnwys hyd at wyth (uchafswm o chwech ar gyfer Baglorieth Cymru) myfyriwr Safon UG (neu gyfatebol) (16-18 oed).
- newydd ddechrau ym Mlwyddyn 12 (neu gyfwerth) y tro cyntaf i chi eu cyfarfod.
- yn newydd i weithio gyda diwydiant

Dylai brîff y prosiect:

- fod yn dasg Beirianeg/STEM wedi'i gosod yng nghyd-destun eich cwmni
- bod yn heriol, ond yn bosibl i'r myfyrwyr ei datrys
- annog datblygu sgiliau mewn gwaith tîm, arweinyddiaeth, datrys problemau a hunanhyder.

## Calendr Prosiect EESW

### Gorffennaf - Medi

- Sefydlu cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r Cwmni
- Yr athro i ddedol tîm o fyfyrwyr
- Y Cwmni i benodi peiriannydd cyswllt a gosod briff y prosiect

### Medi/Hydref - Digwyddiadau Croeso

- Gwahoddir y timau a'r peirianwyr i fynychu digwyddiad croeso hanner diwrnod o hyd er mwyn gwneud y canlynol:
  - ◆ cyflwyno'r timau i'r Prosiect EESW a'u cwmnïau a'u peirianwyr cyswllt
  - ◆ y timau i drafod eu briff prosiect gyda'u peiriannydd cyswllt
  - ◆ darparu gwybodaeth gyffredinol

### Hydref - Rhagfyr

Dylai timau:

- asesu ac ymchwilio briff y prosiect.
- ymweld â'r cwmni cyswllt i gael gwell dealltwriaeth o'r broblem.
- dyfeisio syniadau a datrysiadau posibl.
- asesu dichonoldeb datrysiadau posibl.
- paratoi cynlluniau/datrysiadau cychwynnol a chasglu unrhyw ddeunyddiau sydd eu hangen i baratoi ar gyfer y gweithdy.
- dechrau llenwi proffiliau CREST unigol.
- cynllunio a pharatoi ar gyfer y gweithdai i sicrhau bod amser yn cael ei dreulio'n effeithiol.

Bydd peirianwyr yn:

- darparu canllawiau ar gyfer y tîm pan fydd angen.
- darparu'r wybodaeth dechnegol neu arbenigol fydd ei hangen ar y tîm.
- hwyluso ymweliad â'r cwmni ar gyfer y tîm.

### Rhagfyr/Ionawr - Gweithdai

Mae'r gweithdy EESW yn dod â'r tîm, athrawon, peirianwyr cyswllt ac adrannau peirianneg/technoleg prifysgol at ei gilydd i gynorthwyo i ddatblygu cysyniadau cynllunio ac i arwain y tîm drwy'r gwaith

o gynhyrchu prototeip neu ateb damcaniaethol ar gyfer briff y prosiect.

- Gwahoddir timau i fynychu gweithdy dau neu dri diwrnod o hyd a **rhaid** i bob athro cyswllt fynychu fel y goruchwylydd sy'n gyfrifol am y tîm.

Cynghorir timau i ddefnyddio arbenigedd y staff technegol sydd wrth law yn y gweithdy. Gwahoddir peirianwyr i fynychu er mwyn sicrhau bod y prosiect ar y trywydd iawn.

Bydd timau yn:

- cael cyflwyniadau ar iechyd a diogelwch, ysgrifennu adroddiad a chyflwyno prosiect.
- datblygu dyluniadau ac o bosibl yn gweithgynhyrchu modelau a phrototeipiau.
- parhau i gwblhau proffiliau unigol Gwobr CREST.
- cael unrhyw ddeunyddiau sydd eu hangen yn barod cyn y gweithdy.

EESW sy'n talu costau cyfleusterau gweithdy. Mae safleoedd gweithdai'n ddarostyngedig i reolau iechyd a diogelwch penodol a lefelau uchel o oruchwyliaeth. Cofiwch ddarllen yr adran ar Iechyd a Diogelwch yn y llyfryn hwn a dilynwch bob un o gyfarwyddiadau'r goruchwylwyr sy'n bresennol yn y gweithdy bob amser.

### Ionawr - Mawrth

Dylai timau:

- ysgrifennu eu hadroddiad terfynol a pharatoi eu cyflwyniad ar gyfer yr asesiad gyda chymorth athrawon a pheirianwyr cyswllt.
- sicrhau bod yr adroddiad, ffurflenni proffill CREST ac unrhyw waith papur arall yn cael ei gwblhau mewn fformat darllenadwy.
- anfon yr adroddiad a ffurflenni CREST drwy e-bost i [submissions@eesw.org.uk](mailto:submissions@eesw.org.uk) **erbyn y dyddiad cau a roddir.**
- os yw'r prosiect yn cael ei gyflwyno'n hwyr, gofyn i athrawon gwblhau ffurflen yn rhoi rheswm dros gyflwyno'n hwyr a fydd yn cael ei hystyried gan yr aseswyr.
- parhau i weithio ar y cyflwyniad llafar i baratoi ar gyfer y Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno.

- ymarfer rhoi cyflwyniad i'r peirianwyr cyswllt a gweithwyr eraill y cwmni ac ystyried unrhyw adborth cyn y diwrnod gwobrwyo a chyflwyno.
- cadw mewn cysylltiad â'r periannydd cyswllt a threfnu cymorth gyda'r cyflwyniad ac arddangosiad y prosiect.

## **Mawrth/Ebrill – Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno**

- Timau, athrawon a pheirianwyr i fynychu digwyddiad Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno rhanbarthol.
- Timau'n arddangos prosiectau ac yn rhoi cyflwyniad i banel o aseswyr. Gall timau gael eu henwebu am wobwr a roddir gan noddwr am ragoriaeth mewn amrywiol categorïau. I wybod mwy am wobrau ac asesu, gweler tudalennau 6 i 8).
- Bydd y digwyddiad yn cynnwys arddangosiadau gan gwmnïau, prifysgolion a sefydliadau eraill ac mae ar agor i ysgolion a gwesteion sy'n ymweld. Gall timau weld yr arddangosfa a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol eraill hefyd.

## **Canllawiau ar Ysgrifennu Adroddiad**

Rhaid i'r timau gyflwyno adroddiad ysgrifenedig, a dylai fod tua 25-40 tudalen o hyd a chynnwys cyfeiriadau, graffiau, tablau, darluniau, ffotograffau ac atodiadau fel sy'n briodol.

Dyma rai enghreifftiau o adrannau a chynnwys arferol ar gyfer adroddiad.

### *1. Tudalen Deitl:*

*Enw'r ysgol a'r cwmni, teitl y prosiect, aelodau'r tîm, yr athro, peiriannydd y prosiect, a logos y cwmni, yr ysgol ac EESW.*

### *2. Cynnwys:*

*Mynegai o gynnwys y prosiect*

### *3. Crynodeb Gweithredol:*

*Manylion allweddol y prosiect, megis datganiad o'r broblem, y prif ganlyniadau a chasgliadau*

### *4. Cyflwyniad:*

*Proffil cryno o'r ysgol a'r cwmni, proffiliau myfyrwyr, briff y prosiect a gwybodaeth gefndirol*

### *5. Dadansoddiad:*

*Cefndir damcaniaethol y prosiect, gydag amlinelliad o'r ymchwil, datrysiadau posibl i'r broblem ac unrhyw ddadansoddiad o benderfyniadau a wnaed*

### *6. Dull o weithredu:*

*Disgrifiad o'r prosesau sy'n arwain at ddethol y datrysiad gorau. Sut y cynhyrchwyd y syniadau?*

### *7. Cynllun:*

*Cyfrif eglur, gyda darluniau, o'r broses o benderfynu ar y datrysiad terfynol.*

### *8. Casgliad:*

*Datganiad cryno ynghylch y datrysiad i'r broblem. Trafodwch lefel y budd a gyflawnwyd a thynnwch sylw at gryfderau datrysiad eich tîm. Nodwch unrhyw wendidau a sut y gellid eu gwella.*

### *9. Gwerthusiad:*

*Cyflwyniad a dehongliad llawn a chliir o ddata, gydag esboniad manwl a goblygiadau'r canlyniadau. Pa mor llwyddiannus oedd y prototeip? Sut y gallai'r cwmni weithredu'r argymhellion? Beth oedd y materion amgylcheddol a nodwyd? Beth yw'r costau datblygu a gweithredu? Beth yw'r manteision costau i'r cwmni?*

### *10. Argymhellion:*

*Nodwch beth y dylai'r cwmni ei wneud nesaf, er enghraifft y datblygiadau pellach sydd eu hangen, problemau i'w datrys, hyfforddiant i staff ar y broses newydd neu ddatblygu proses weithredu.*

### *11. Cydnabyddiaeth:*

*Rhestrwch y bobl sydd wedi helpu gyda'r prosiect gyda gair o ddiolch.*

### *12. Cyfeiriadau:*

*Nodwch ble y gall y defnyddiwr ddod o hyd i'r wybodaeth y cyfeirir ati yn yr adroddiad ysgrifenedig.*

### *13. Atodiadau:*

*Tablau, cyfrifiadau a gwybodaeth bwysig arall na ellir ei hymgorffori yn y prif destun.*

Cyfeiriwch at y PowerPoint "Canllawiau ar Adroddiad a Chyflwyniad EESW" i wybod mwy.

# Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno EESW

## Meini Prawf Asesu

Nod y drefn asesu yw dynodi lefel cyrhaeddiad o dan bob un o'r 8 maen prawf canlynol:

### 1. Dadansoddi'r Broblem

A yw eich tîm wedi dadansoddi'r broblem yn ei chyddestun, wedi nodi paramedrau'r broblem ac wedi egluro'r materion sy'n codi?

### 2. Gwybodaeth Dechnegol

A yw eich tîm wedi dangos dealltwriaeth o'r wybodaeth wyddonol/beirianyddol sy'n gysylltiedig, wedi cymhwyso'r wybodaeth hon i'r prosiect a chynhyrchu cynllun gan ddefnyddio egwyddorion peirianyddol cadarn?

### 3. Datrysiaid a Ddewiswyd

A yw eich cynnyrch neu eich system yn dangos yn glir fod yr angen wedi'i ddiwallu neu fod modd gwneud hynny? A yw'r datrysiaid a ddewiswyd yn debygol o fod yn llwyddiannus yn dechnegol ac yn ariannol?

### 4. Gwerthuso yn ôl Briff y Prosiect

A yw eich tîm wedi gwerthuso'r prosiect yn ôl manyleb fanwl ac wedi awgrymu cynlluniau priodol ar gyfer ei ddatblygu yn y dyfodol?

### 5. Rheoli Prosiect/Gwaith Tîm

A yw eich tîm wedi rhannu tasgau'n gyfartal ac wedi dangos tystiolaeth o reoli amser ac adnoddau'n dda? A yw'r tîm wedi dangos tystiolaeth o strwythur wedi'i hystyried yn fanwl, gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer pob aelod? A oedd y prosiect yn ymdrech dda i weithio mewn tîm?

### 6. Adroddiad Ysgrifenedig

A yw eich tîm wedi chyflwyno adroddiad sy'n eglur, yn gryno, wedi'i gyflwyno'n dda ac sy'n nodi'r broses a ddilynwyd yn fanwl? A fu pob myfyriwr ynghlwm wrth

baratoi'r adroddiad? A gyflwynwyd yr adroddiad yn brydlon?

### 7. Arddangosfa stondin

A yw'r tîm wedi arddangos stondin glân a threfnus sy'n arddangos y prosiect yn glir ac yn cynnwys cymhorthion proffesiynol? A yw'r graffeg o ansawdd da?

### 8. Cyflwyniad Ffurfiol

A yw'r tîm wedi rhoi cyflwyniad proffesiynol a fyddai'n argyhoeddi'r diwydiant bod y datrysiaid yn un y gellid ei ddatblygu ymhellach? A wnaeth pob aelod gymryd rhan yn y cyflwyniad?

Yn ogystal â'r meini prawf uchod, dylech arddangos y defnydd o rifedd yn eich adroddiad os ydych chi'n bwriadu defnyddio'r prosiect ar gyfer Her Menter a Chyflogadwyedd Bagloriaeth Cymru. Gallai hyn gynnwys dadansoddiad cost a budd ar gyfer gweithredu cynigion neu gyfrifiadau i ddatrys y broblem.

## Paratoi at y Cyflwyniad

Bydd timau'n rhoi cyflwyniad ar lafar yn para tua 10-12 munud ac yn ateb cwestiynau gan banel o aseswyr yn ystod sesiwn y bore o'r Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno. Mae disgwyl i **bob** aelod o'r tîm gyfrannu.

Mae'r aseswyr yn cynnwys peirianwyr proffesiynol a phobl academiaidd. Mae disgwyl i bob aelod o'r tîm gymryd rhan yn y cyflwyniad i sicrhau bod pob un o'r myfyriwr yn deall prosiect, felly gofalgwch baratoi ymlaen llaw.

Dylai'r cyflwyniad gynnwys:

- Cyflwyno'r ysgol ac aelodau'r tîm/rolau
- Gwybodaeth gefndirol am gwmni cyswllt y tîm
- Disgrifiad o'r broblem a roddwyd
- Y datrysiaid a ystyriwyd gennych
- Y dull o ddethol y datrysiaid terfynol
- Y datrysiaid terfynol
- Gwerthuso'r datrysiaid terfynol

Mae'n bwysig ymarfer - ceisiwch beidio â darllen o sgriptiau a/neu edrych ar y sgrin drwy gydol y cyflwyniad a siaradwch yn glir ac yn hyderus. Gallwch ddefnyddio PowerPoint wedi'i daflunio yn eich stondin. Ni chyflenwir gliniaduron, taflunwyr a

chyfarpar electronig arall. Os hoffai eich tîm ddod â chyfarpar gyda nhw, nodwch na fydd EESW yn gyfrifol am eitemau a gaiff eu colli, eu dwyn neu eu difrodi.

## Paratoi Arddangosiadau

Yn y digwyddiad, bydd timau'n cael stondin 3 metr gan 1 metr o faint, yn cynnwys cynllun cragen, cyflenwad trydan a bwrdd.

Dylai timau feddwl yn ofalus am yr arddangosiad cyn mynychu'r diwrnod gwobrwyo a chyflwyno a sicrhau bod y deunyddiau'n barod ymlaen llaw (ni fydd cyfleusterau argraffu ar gael). Mae'r stondin yn fawr iawn, a dylech ei wneud yn ddeniadol i'r aseswyr a'r gynulleidfa.

Rhestrir rhai eitemau arddangos cyffredin isod:

- Ffotograffau/darluniau/diagramau (maint A3 neu fwy yn ddelfrydol)
- Logos yr Ysgol/Cwmni/ EESW
- Baneri ysgol/cwmni
- Prototeipiau/Modelau
- Printiadau cyflwyniadau PowerPoint/Keynote
- Darluniadau Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD)
- Copïau o dudalennu o'r adroddiad (print mawr)
- Copi o'r adroddiad ysgrifenedig

Mae Velcro â chefn gludiog yn ddelfrydol ar gyfer gosod eitemau ar y cynllun cragen. Dylai ysgolion gyflenwi hwn gan **na fydd** ar gael yn y lleoliad ar y diwrnod.

*Nid yw'r cynllun cragen a ddarperir yn strwythur sefydlog ac ni ddylid ei wthio, ei dynnu neu ei orlwytho ar unrhyw adeg. Ni ellir gwneud EESW yn gyfrifol am unrhyw niwed neu ddifrod sy'n digwydd i fyfyrwyr neu eiddo.*

Mae'n hanfodol fod pob aelod o'r tîm yn aros wrth y stondin yn ystod yr asesiad a dylai o leiaf ddau aelod o'r tîm aros wrth y stondin drwy gydol y diwrnod i gyfarch ymwelwyr. Bydd noddwyr y gwobrau yn dod i weld y stondinau yn ystod sesiwn y prynhawn a byddant eisiau siarad â'r timau.

## Rheolau a Meini Prawf Cymhwysedd

1. Rhaid i bob aelod o'r tîm fynychu ysgol/coleg yng Nghymru
2. Rhaid i bob myfyriwr yn y tîm fod ym Mlwyddyn 12 (Safon UG neu gyfatebol). Mae'n **rhaid** i fyfyrwyr fod o dan 19 oed ar ddechrau'r prosiect.
3. Mae'n rhaid i bob tîm gynnwys **uchafswm** o 8 aelod (uchafswm o 6 aelod ar gyfer Bagloriaeth Cymru).
4. **Rhaid** i athrawon roi gwybod i EESW os yw aelodaeth y tîm yn newid yn ystod cyfnod y Prosiect, a chofrestru'r briff ag EESW.
5. Bydd cyswllt rhwng yr ysgol a chwmni yn cael ei bennu gan EESW, ac os oes unrhyw broblemau gyda'r briff prosiect a osodir, dylid rhoi gwybod i EESW cyn gynted ag y bo modd.
6. Rhaid i bob aelod o'r tîm fynychu'r Diwrnod Gwobrwyo a Chyflwyno.
7. Cyhoeddir categorïau gwobrau yn y Llawlyfr Prosiect blynyddol a gallant newid bob blwyddyn.
8. Bydd holl benderfyniadau'r aseswyr a noddwyr y gwobrau yn derfynol ac ni wrandewir ar unrhyw apelïadau.

## Gweithdrefn Asesu Prosiect

- Bydd eich prosiect yn cael ei asesu yn ystod y Diwrnod Gwobrau a Chyflwyno, a neilltuir amser i'ch tîm wneud cyflwyniad llafar i banel o dri asesydd wrth eich stondin. Bydd paneli o aseswyr yn rhoi sgôr o 1-5 i bob tîm am yr 11 categori uchod (hyd at uchafswm o 40 marc).
- Byddant hefyd yn gwneud enwebiadau ar gyfer amryw o gategoriâu o wobrau (gweler y Llawlyfr Prosiect blynyddol).
- Bydd nifer o dimau'n cael eu henwebu i gynrychioli Cymru yn Ffair Genedlaethol y Big Bang. (Mae'n rhaid i'r timau gydymffurfio â Rheolau a Meini Prawf Cymhwysedd Big Bang a chofrestru ar-lein cyn y dyddiad cau.)

## Y Weithdrefn Wobrwy

Mae EESW yn gwahodd noddwyr i roi gwobrau ar gyfer prosiectau sy'n arddangos rhagoriaeth mewn categorïau gwahanol, sy'n cael eu hasesu yn ystod y Diwrnod Gwobrau a Chyflwyno blynyddol. **Bydd Aseswyr Prosiectau yn enwebu timau ar gyfer gwobrau a bydd noddwyr gwobrau yn adolygu'r rhai a enwebwyd ac yn ymweld â thimau ger y stondinau.**

Mae timau sydd wedi ennill yn cael eu galw i'r llwyfan i dderbyn eu gwobr. Bydd pob aelod o'r tîm yn derbyn taleb gwerth £50 (ar yr amod ei fod wedi'i gofrestru).

Mae teitlau'r gwobrau yn dibynnu ar noddwyr yn cytuno i gynnig rhodd bob blwyddyn, a gallant newid bob blwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn ceisio sicrhau bod gwobrau ar gael ar gyfer ystod eang o gategorïau fel bod modd i gynifer o dimau â phosibl gael cyfle i gael eu henwebu.

Mae nifer y gwobrau sy'n cael eu dyrannu i'r digwyddiad rhanbarthol yn adlewyrchu nifer y timau sy'n cystadlu, ac mae hefyd yn dibynnu ar nifer y rhai sy'n noddi gwobrau yn y rhanbarthau.

Dylai athrawon a myfyrwyr fod yn ymwybodol mai prif ddiben cymryd rhan ym Mhrosiect EESW yw i'r myfyrwyr ennill profiad ymarferol a sgiliau a gwybodaeth newydd a fydd yn hollbwysig iddynt yn y dyfodol. Nid oes modd i bob tîm ennill gwobr; fodd bynnag, gofynnir i noddwyr y gwobrau ystyried y 4 prosiect â'r sgoriau uchaf a enwebir yn eu categori gan aseswyr y prosiectau.

Dyma restr o wobrau sydd wedi'u noddi yn y gorffennol at ddibenion arweiniad yn unig (fel y nodwyd uchod, ni allwn warantu y byddant yn cael eu noddi bob blwyddyn).

## Gogledd Cymru:

- Y Defnydd Gorau o Beirianeg a Thechnoleg
- Y Defnydd Gorau o Wyddoniaeth
- Y Gwerthfawrogiad Gorau o Ynni
- Y Perfformiad Tîm Cyffredinol Gorau
- Yr Adroddiad Ysgrifenedig Cyffredinol Gorau
- Y Defnydd Gorau o Sgiliau Codio/TG
- Y Defnydd Gorau o Egwyddorion Peirianeg Fecanyddol
- Yr Ateb Mwyaf Arloesol i'r Prosiect
- Y Prosiect â'r Potensial Masnachol Mwyaf

## De Cymru:

- Y Defnydd Gorau o Beirianeg a Thechnoleg
- Y Defnydd Gorau o Fathemateg
- Y Defnydd Gorau o Wyddoniaeth
- Y Gwerthfawrogiad Mwyaf o Faterion Amgylcheddol
- Y Gwerthfawrogiad Mwyaf o Faterion Diogelwch
- Y Dyluniad Peirianeg Gemegol/Broses
- Y Gwerthfawrogiad Mwyaf o Ynni
- Y Dyluniad Peirianeg Gorau
- Y Perfformiad Tîm Cyffredinol Gorau
- Yr Adroddiad Ysgrifenedig Cyffredinol Gorau
- Y Defnydd Gorau o Sgiliau Codio/TG
- Y Model Gweithio neu'r Prototeip Gorau
- Y Cyflwyniad Mwyaf Effeithiol o'r Ateb a Ddewiswyd
- Y Defnydd Mwyaf Arloesol o Dechnoleg sy'n Bodoli Eisoes
- Y Dyluniad Mwyaf Arloesol neu wedi'i Addasu
- Yr Ateb Mwyaf Arloesol i'r Prosiect
- Y Prosiect â'r Potensial Masnachol Mwyaf

Mae amserlenni ar gyfer asesu ac i noddwyr prosiectau adolygu prosiectau yn gyfyngedig yn y digwyddiadau. Bydd holl benderfyniadau'r beirniaid yn derfynol ac ni wrandewir ar unrhyw apeladau.

## Cyngor ar Iechyd a Diogelwch

### Cofiwch ddarllen yr adran hon yn ofalus

#### Noder - Dylai pob ysgol gynnal eu hasesiadau risg eu hunain

Drwy gydol y prosiect, byddwch yn ymweld ag amrywiaeth o leoliadau ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau. Mae'n hanfodol eich bod yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n peryglu eich hun neu eraill sy'n gweithio o'ch cwrmpas.

Yn ystod ymweliadau safle â chwmnïau, dylech chi a'ch goruchwylwyr sicrhau eich bod yn gwisgo'r dillad a'r offer diogelwch priodol a ddarperir.

**RHAID** dilyn pob un o reolau a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch y bobl sydd mewn awdurdod ar bob adeg.

Dylech gael eich goruchwyllo gan eich athro cyswllt yn ystod digwyddiadau croeso, gweithdai, ymweliadau safle, y diwrnod gwobrwyo a chyflwyno a'r holl weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect EESW.

Mae'r rheolau cyffredinol y mae'n rhaid i chi eu dilyn **ar bob adeg ac ym mhob sefyllfa** yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Gwrando'n ofalus ar athrawon ac aelodau eraill o staff a dilyn cyfarwyddiadau bob amser.
- Sicrhau bod pob cyfarwyddiad yn cael ei ddeall yn llawn.
- Peidio â gwneud dim a allai beryglu eraill a gofyn i rywun os oes unrhyw amheuaeth.
- Gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng a lleoliad yr allanfeydd argyfwng.
- Darganfod beth yw enwau'r staff Cymorth Cyntaf a lle y gellir dod o hyd iddynt.
- Rhoi gwybod i'r goruchwylwyr ar unwaith am unrhyw anaf neu effeithiau gwael.

#### Iechyd a Diogelwch y Gweithdai

Bydd y lleoliadau'n sicrhau bod gweithleoedd, offer a pheiriannau yn ddiogel. Bydd cwmnïau a phrifysgolion yn briffio timau ysgol cyn cyflawni gwaith ymarferol.

Mae rheolau eraill sy'n berthnasol i chi mewn amgylchedd gweithdy/safle yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Defnyddio cyfarpar a dillad diogelwch personol lle mae angen.
- Gwybod lle mae'r botymau argyfwng yn y gweithdy.
- Bod yn amyneddgar bob amser, peidio byth â rhuthro yn y gweithdy.
- Rhoi gwybod am unrhyw ddifrod i beiriannau neu gyfarpar.
- Peidio â thynnu sylw pobl eraill sy'n defnyddio peiriannau.
- Cadw eitemau yn y manau priodol – cadw manau gweithio'n daclus ac yn glir a chlririo pethau sy'n cael eu sarnu ar unwaith.
- Defnyddiwch drolïau, berfâu neu'r cyfarpar/gweithdrefnau priodol ar gyfer codi pwysau trwm bob amser lle maent ar gael.
- Deallwch y cyfarwyddiadau cyn defnyddio cyfarpar trydanol.
- Diffoddwch y prif gyflenwad bob amser cyn cysylltu neu ddatgysylltu dyfais drydanol.
- Rhwch wybod am unrhyw offer neu gyfarpar trydanol sydd wedi cael difrod, gan gynnwys ceblau a lidiau estyn.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod cyfarpar trydanol sy'n cael ei gludo i ddigwyddiadau yn ddiogel ac wedi cael prawf diogelwch (PAT) pan fo hynny'n briodol.

Mae'r rheolau sy'n berthnasol i chi yn lleoliad y diwrnod gwobrwyo a chyflwyno yn cynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddynt:

- Dylai ceblau gael eu gosod yn sownd wrth y llawr, a dylid gosod deunyddiau arddangos er mwyn lleihau'r perygl o faglu.
- Dylai pawb ymddwyn yn gyfrifol bob amser.
- Bydd angen gofal o gwmpas cyfarpar technegol ac wrth symud o gwmpas.
- Sicrhau nad oes gormod o bobl o gwmpas stondin y tîm.
- Rhoi gwybod i EESW ar unwaith os oes unrhyw broblemau.

## Cyhoeddusrwydd a Chysylltiadau Cyhoeddus

Anogir timau EESW i gael y sylw y maent yn ei haeddu gan y cyhoedd ac ar y cyfryngau. Dyma rai awgrymiadau defnyddiol!

Yn gyntaf, dewch o hyd i wybodaeth am y wasg a'r cyfryngau yn lleol:

- Lluniwch restr o'r holl bapurau newydd lleol a rhanbarthol, gorsafoedd radio a theledu.
- Dewch o hyd i enwau cyswllt, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost golygyddion newyddion/golygyddion nodwedd/addysg/gwyddoniaeth/busnes neu ohebwy.
- Dylech gynnwys unrhyw gyflwynwyr radio/teledu "enwog" yn lleol.

Ceir ffurf safonol dderbyniol ar gyfer ysgrifennu datganiad i'r wasg da. Mae'r cyfryngau'n cael cannoedd o ddatganiadau/gwybodaeth i'r wasg bob dydd, felly mae'n rhaid i'ch un chi fod yn effeithiol, yn hawdd i'w ddarllen a mynd yn syth at y pwynt.

Dylai'r datganiad:

- gael pennawd trawiadol – dylai fod yn gryno, yn glir ac i'r pwynt.
- llenwi un dudalen A4 gyda gofod dwbl.
- cynnwys paragraff cyntaf sy'n rhoi pwyntiau hanfodol y wybodaeth.
- cyfathrebu'r 5 cwestiwn – pwy, beth, pryd, ble a pham.
- cynnwys adran fer ar eich cwmni/ysgol a'ch cyfranogiad ym Mhrosiect EESW.
- cynnwys eich manylion cyswllt.
- nodi diwedd y datganiad i'r wasg â thri hashnod (###), sy'n arfer safonol gan newyddiadurwyr.
- cynnwys ail dudalen (nad yw ar gyfer ei chyhoeddi) o dan y pennawd *Nodiadau i Olygyddion* er mwyn ymhelaethu ar bob un o'r pwyntiau a wnaed yn y prif ddatganiad.

Rhaid i'r ysgol a'r cwmni sy'n noddii weld a chymeradwyo pob datganiad i'r wasg cyn ei ryddhau, a dylent gynnwys cyfeiriad at EESW tebyg i'r testun safonol canlynol:

*"Mae Prosiect Cynllun Addysg Peirianeg Cymru (EESW) yn annog pobl ifanc i ystyried gyrfya ym meysydd STEM trwy roi cyfle i fyfyrwyr weithio gyda pheirianwyr proffesiynol ar brosiect diwydiannol. Mae'r prosiect EESW yn un o feysydd gweithgareddau STEM Cymru 2 ac mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru, Gogledd Cymru a'r Cymoedd. Mewn ardaloedd eraill o Gymru mae'n cael ei ariannu gan Academi Wyddoniaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Caiff tîm o fyfyrwyr Blwyddyn 12 eu rhoi mewn cysylltiad â chwmni i weithio ar broblem go iawn wedi'i gosod gan beiriannydd. Yn ystod y prosiect, bydd myfyrwyr yn ymchwilio ac yn cynllunio datrysiad ac yn llunio argymhelliad neu brototeip terfynol."*

### Cyngor ar ysgrifennu datganiad i'r wasg:

- Dylech osgoi jargon neu dermau arbenigol
- Edrychwch ar ddatganiadau i'r wasg eraill
- Defnyddiwch eich pennawd fel testun yr e-bost
- Anfonwch eich datganiad i'r wasg drwy e-bost gan ddefnyddio fformat safonol
- Cynhwyswch enw eich ysgol/cwmni yn y pennawd a/neu ym mharagraff cyntaf y datganiad
- Mae amseru'n bwysig – dylai datganiadau i'r wasg fod yn newyddion diweddar
- Ysgrifennwch y datganiad i'r wasg cyn y pennawd

Gellir paratoi datganiadau i'r wasg ar gamau gwahanol o'r prosiect, er enghraifft y cam gweithdy, neu'r Diwrnodau Gwobrwyo a Chyflwyno. Cofiwch gynnwys ffotograffau bob amser yn dangos y grŵp, yr athro a pheiriannydd y cwmni yn cymryd rhan lawn mewn gweithgaredd.

Cadwch yr holl ddatganiadau i'r wasg/erthyglau/toriadau/sylw, gan gynnwys fideos o eitemau ar y teledu, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect. Mae'r cyfan yn ddeunydd da wrth ymgeisio am le mewn prifysgol neu wneud cais am swydd a gall edrych yn drawiadol iawn fel rhan o becyn CV. Cofiwch anfon copi o'ch erthygl i EESW neu beth am ei rannu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol!